Croesawu

Braf oedd cael croesawu Miss Helen Davies yn ôl ar ôl treulio cyfnod o ddau dymor fel Pennaeth Ysgol Pontrhydfendigaid.

Croeso hefyd i ddwy ddarpar athrawes sef Miss Beth Thomas a fydd yn y Dosbarth Derbyn a Miss Sharon Owen a fydd gyda blwyddyn 5 a 6.

Cawsom gyfle hefyd i groesawu 'Arad Goch' a fu yn perfformio i blynyddoedd 5 a 6 ysgol y Penrhyn a Threfeurig. Mwynhawyd y gweithdai a oedd yn dilyn y perffomiad.

Daeth dau berson MANWEB i siarad ac i ddangos fideo i blwyddyn 5 a 6 am ddiogelwch yn y cartref.

Hyfryd oedd croesawu Elen Pen Cwm i'r ysgol i ymweld a blwyddyn 3 a 4 i drafod syniadau ar gyfer rhaglen Planed Plant! Daeth draw i ddweud "helo" wrth blantos bach Dosbarth Derbyn yn ogystal!

Llongyfarchion i dim cyntaf pel droed yr ysgol a aeth drwyddo i rown derfynol cwpan y cylch.

Aeth criw o blant draw i redeg yn nhrawsgwlad yr Urdd gan fwynhau.

Cafodd Sarah Fitzpatrick a Declan Groats wobr clwb "smoke busters" am wneud croesair.

Daeth y tim ail iaith sef – Sarah Fitzpatrick, Rebecca Kenny, Lydia Shaw a Hannah Wells yn bedwerydd yng nghystadluaeth Llanw Llyfrau eleni.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Penrhyn. Cafwyd noson brysur gyda cynrychiolaeth dda o blant yr ysgol yn cystadlu.

Canu

Mae rhai o'r plant hynaf yr ysgol yn canu nos Iau y 9fed o Fai gyda chôr plant Ceredigion yn y Neuadd Fawr, ac yna mae'r Côr yn canu i agor y Gynhadledd Addysg yng Nghaerdydd ar Fai 23ain. Mwynhewch!